## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.40pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Ron Davies | Caerffili |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol* | |
| Christine Lloyd | CyflE Cymru |
| Martin Parfett | CyflE Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Rory O’Sullivan (eitemau 2 a 4) | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Mike Dunn (eitem 2) | Yr Is-adran Dabtlygu Bwyd a Ffermio |
| Glyn Perryman (eitem 4) | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Huw Jones (eitem 5) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Claire Bennett (eitem 5) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Menna Williams | Cynorthwy-ydd Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan John Griffiths. Cymerwyd ei le gan Lorraine Barrett.

1.2 Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Ron Davies i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r pwyllgor.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 18-01(p1)

2.1 Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor fod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi erbyn hyn fod Cymru'n rhydd o glwy'r traed a'r genau. Disgwylid y byddai'r Comisiwn, ar 14 Rhagfyr, yn cymeradwyo argymhelliad gan y Pwyllgor Milfeddygol Sefydlog y gellid ailddechrau allforio cynnyrch o bob rhan o Gymru.

2.2 Eglurodd y Gweinidog beth oedd statws y Cynllun Difa ar sail Lles yng Nghymru. Byddai'r cynllun yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn ac ni fyddai angen defnyddio safleoedd claddu sbwriel yng Nghymru ar ôl hynny.

2.3 Gofynnwyd i'r Gweinidog wneud sylwadau ynghylch y dryswch yr adroddwyd amdano gan ffermwyr ar Ynys Môn yn ymwneud â'r cyhoeddiad ynghylch clwy'r traed a'r genau. Yr oedd ffermwyr wedi cael trafferth i gael gwybodaeth ynghylch eu gallu i allforio yn dilyn y cyhoeddiad. Arweiniodd hyn at ddryswch ynghylch lladd wyn ar gyfer y farchnad gartref a'r farchnad allforio.

2.4 Eglurodd y Gweinidog nad oedd datganiad bod y wlad yn rhydd o glwy'r traed a'r genau yn gyfystyr â chael caniatâd i allforio unwaith eto. Bwriadai wneud y Gorchymyn er mwyn caniatáu allforio ar yr un dyddiad â'r cyhoeddiad disgwyliedig gan y Comisiwn ar 14 Rhagfyr. Nododd y Pwyllgor fod problemau technegol y diwrnod ar ôl y cyhoeddiad wedi golygu nad oedd manylion ar gael ar y rhyngrwyd. Yng nghyswllt pwynt penodol ynghylch gallu milfeddygon i ardystio bod ôl-gerbydau a oedd yn cynnwys anifeiliaid i'w hallforio wedi eu glanhau i safon foddhaol, cynigiodd y Gweinidog ystyried achosion unigol pe bai'r Aelodau'n darparu manylion.

2.5 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr amserlen debygol ar gyfer codi cyfyngiadau symud, dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw amserlen wedi ei chytuno eto. Nid oedd y mater yn nwylo'r Cynulliad ond gobeithiai y byddai unrhyw system newydd yn hyblyg ac na fyddai angen trwyddedau penodol. Yr oedd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wrthi'n trafod trefniadau a oedd, yn eu tro, yn gysylltiedig â phenderfyniadau'r UE ynghylch cadarnhad y gellir ailddechrau prynu a gwerthu anifeiliaid byw a chytundebau allforio rhyngwladol eraill. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddid yn ymgynghori ymlaen llaw pe cyflwynid cyfnod o wahardd symud anifeiliaid am 21 diwrnod.

2.6 Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â chwota, dywedodd y Gweinidog na fyddai ffermwyr a oedd yn methu â phrynu stoc newydd cyn 31 Rhagfyr yn colli cwota os oedd yr anifeiliaid dan sylw wedi eu colli am resymau yn ymwneud â rheoli clwy'r traed a'r genau.

2.7 Holwyd y Gweinidog ynghylch y Gorchymyn a gyflwynwyd yn Nhachwedd i ganiatáu hela plâu a fermin â chwn ar dir a reolid gan gyfyngiadau clwy'r traed a'r genau. Holodd yr Aelodau, yn fwyaf arbennig, ynghylch y diffiniad o'r gair 'plâu' a'r amserlen debygol ar gyfer ailddechrau hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Nododd y Pwyllgor fod y Gorchymyn yn diddymu darpariaethau mewn Gorchymyn blaenorol a oedd yn cyflwyno'r gwaharddiad a bod anifeiliaid penodol yn cael eu nodi yn hytrach na 'phlâu a fermin'. Teimlai'r Gweinidog nad oedd y penderfyniad I wrthod ailddechrau hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn un yr oedd gan y Cynulliad hawl i'w wneud. Awgrymai'r cyngor cyfreithiol a dderbyniodd y byddai'n agored i her gyfreithiol pe bai'n ceisio gwneud hynny. Cytunodd i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw gamau a gymerid gan Adrannau eraill y Llywodraeth i ailddechrau hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth.

2.8 Wrth drafod sefydlu Gweithgor Strategaeth Datblygu Coedlannau a Biomas, cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu cylch gorchwyl y Grwp i'r Pwyllgor. Yr oedd y swyddogion yn cyfarfod Cadeirydd y Grwp i drafod cyhoeddi ei adroddiad yn gynt na'r dyddiad arfaethedig, sef Gorffennaf 2002.

2.9 Yr oedd y Pwyllgor yn falch bod Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd wedi cyflwyno gwobr 'Rhodd i'r Ddaear' i'r Comisiwn Coedwigaeth. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Comisiwn Coedwigaeth i'w longyfarch.

2.10 Addawodd y Gweinidog y byddai'n paratoi papur ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 9 Ionawr 2002 yn nodi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn brechu er mwyn rheoli clwy'r traed a'r genau.

2.11 Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i roi gwybod iddo os hoffent weld unrhyw faterion yn cael eu cynnwys yn Adroddiadau'r Gweinidog yn y dyfodol.

**Camau gweithredu**

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd gan Adrannau eraill y Llywodraeth i ailddechrau hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddol**

Cylch gorchwyl y Gweithgor Strategaeth Datblygu Coedlannau a Biomas i'w ddosbarthu i'r Pwyllgor – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Bwyd a Ffermio**

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Comisiwn Coedwigaeth i'w longyfarch am ennill gwobr Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd – **Y Cadeirydd, Ysgrifenyddiaeth**

Papur i'w baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 9 Ionawr 2002 yn nodi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn

brechu er mwyn rheoli clwy’r traed a’r genau – **Y Gweinidog, Yr Adran Amaethyddiaeth**

**Eitem 3: Adolygiad o TGCh mewn ardaloedd gwledig**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Christine Lloyd, Cyfarwyddwr Prosiect CyflE Cymru a Martin Parfett o Brifysgol Caerdydd i’r cyfarfod. Gellir gweld copi o’u cyflwyniad ar y prosiect CyflE Cymru drwy glicio yma.

3.2. Gofynnwyd iddynt sut yr oedd targedau’r prosiect ar gyfer creu swyddi wedi eu pennu, sut y byddai’r prosiect yn osgoi dyblygu gwaith mentrau eraill a beth oedd eu barn ynghylch yr isadeiledd oedd ar gael. Dywedodd Christine Lloyd wrth y Pwyllgor fod y targedau’n seiliedig ar waith ymchwil blaenorol a’u bod wedi eu cymeradwyo gan swyddogion y Cynulliad fel rhan o gynllun busnes y prosiect. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyrraedd y targedau yng nghyswllt swyddi oedd 6 mis ar ôl i’r prosiect ddod i ben ym Mawrth 2004.

3.3 Yr oedd y cynllun busnes hefyd yn cynnwys archwiliad a wnaethpwyd er mwyn sicrhau bod y prosiect yn defnyddio ac yn ategu’r mentrau a’r strwythurau a oedd yn bodoli’n barod. O ganlyniad, yr oedd CyflE Cymru yn gweithio mewn cysylltiad agos â’r Awdurdod Datblygu, Cyswllt Busnes a grwpiau menter a oedd yn bodoli’n barod.

3.4 O’u profiad hyd yn hyn, prin oedd y cwynion gan gwmnïau ynghylch diffyg isadeiledd band llydan. Yr oedd busnesau’n canolbwyntio mwy ar y gwasanaethau yr oeddent eu hangen ac yn gadael i’r ateb technolegol priodol ddilyn. Derbynnid y byddai’r angen am wasanaethau band llydan yn cynyddu yn y dyfodol, ond nid gwella isadeiledd TGCh oedd rôl CyflE Cymru, a cheisiai’r prosiect, yn hytrach, ddangos i gwmnïau beth y gallent ei gyflawni drwy TGCh heddiw ac annog galw yn unol â hynny. Yr oedd y prosiect yn anelu at deilwrio atebion ar gyfer busnesau bach gan amrywio o’r hyfforddiant mwyaf sylfaenol mewn TGCh i gyngor a chefnogaeth i ddefnyddwyr mwy profiadol. Pwysleisiodd Aelodau’r Pwyllgor fod angen bod yn rhagweithiol a chynnig cyngor i fusnesau bychain yng nghefn gwlad yn hytrach na dim ond ymateb i alwadau gan y defnyddwyr mwyaf soffistigedig.

3.5 Cydnabu Martin Parfett bwysigrwydd clybiau e-fusnes a dulliau eraill o annog cyswllt wyneb yn wyneb rhwng pobl fusnes. Yr oedd gan CyflE Cymru gynllun peilot a oedd yn ymwneud â mentora er mwyn helpu yn y modd hwn.

3.6 Dim ond mewn ardaloedd Amcan 1 yr oedd CyflE Cymru yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Yr oedd cynlluniau’n cael eu paratoi i ymestyn y fenter i rannau eraill o Gymru, gan ddechrau gyda’r ardaloedd Amcan 2.

3.7 Holwyd Christine Lloyd ynghylch profiad gwledydd eraill a oedd wedi dewis canolbwyntio ar ddarparu isadeiledd TGCh yn hytrach na hybu’r galw. Yr oedd Sweden wedi canolbwyntio ar gynyddu’r isadeiledd band llydan a oedd ar gael ond yr oedd yn canfod bellach nad oedd hyn wedi creu galw yn awtomatig.

3.8 Pwysleisiodd Christine a Martin bwysigrwydd manteision e-fasnach i fusnesau bach. Yn fwyaf arbennig, yr oedd yn holl bwysig eu bod yn cael eu hannog i feddwl yn ochrol am y manteision a allai ddod yn ei sgil a pheidio â meddwl bod e-fasnach yn ymwneud â gwerthu arlinell yn unig.

3.9 Diolchodd y Cadeirydd i Christine Lloyd a Martin Parfett am eu cyflwyniad.

**Eitem 4: Adolygiad o Bysgodfeydd Eogiaid a Dwr Croyw** - ARD 18-01(p3)
4.1 Croesawodd y Pwyllgor yr ymateb diwygiedig i'r Adolygiad a'r gydnabyddiaeth a roddid bellach i'r sector pysgodfeydd.

4.2 Nododd yr Aelodau y bwriedid i oddeutu £400,000 o'r cymorth grant o £800,000 ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd ym mhob un o'r tair blynedd nesaf, fynd tuag at weithredu argymhellion yr adroddiad. Byddai'r gweddill yn cefnogi prosiect Amcan 1 yr Asiantaeth a oedd yn ymwneud â rhannau o Astudiaeth Nautilus i Bysgodfeydd Môr a Mewndirol. Byddai llythyr gorchwyl yn cael ei anfon gyda'r arian, a byddai'n nodi'r trefniadau arolygu ar gyfer yr Asiantaeth, er mwyn sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad o'r modd y byddai arian Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael ei ddefnyddio i weithredu argymhellion yr adroddiad.

4.3 Mynegwyd pryder bod yr ymgynghoriad a wnaethpwyd cyn yr adroddiad wedi ei arwain o'r tu allan i Gymru. Nododd y Gweinidog fod yr ymgynghoriad wedi ei wneud cyn datganoli, ond ei fod yn gobeithio y byddai unrhyw ymarfer tebyg yn y dyfodol yn cael ei wneud gan y Cynulliad neu sefydliadau eraill yng Nghymru.

4.4 Dywedodd y Gweinidog fod y sector pysgodfeydd wedi gwneud cais am oddeutu £200,000 dan y Cynllun Adfywio Gwledig er mwyn hybu adfywiad economaidd yn dilyn effaith clwy'r traed a'r genau. Ychwanegodd nad oedd yr adolygiad yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer rheoli clefydau mewn pysgod.

**Gweithredu –** Y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad o'r modd y byddai arian Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael ei ddefnyddio i weithredu argymhellion yr adroddiad – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddol**

**Eitem 5: Cyfarwyddeb Rhyddhau Organebau wedi eu Haddasu'n Enetig** - ARD 18-01(p4)

5.1 Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor at erthygl yn y papur newydd *European Voice* yn cyfeirio at benderfyniad y Cynulliad i gynyddu'r pellter rhwng cnydau organig a chnydau wedi eu haddasu'n enetig. Cytunodd i ddosbarthu copi i Aelodau'r Pwyllgor.

5.2 Holwyd y Gweinidog a oedd yn ymwybodol o ymchwil newydd o Fecsico a oedd yn awgrymu bod posibilrwydd y gallai genynnau wedi eu haddasu'n enetig gael eu trosglwyddo mor bell â 60 milltir. Yr oedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r gwaith a theimlai fod safiad y Cynulliad, a'r camau yr oedd wedi

eu cymryd, wedi agor y drafodaeth ar faterion yn ymwneud ag addasu genetig yn Ewrop.

5.3 Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu trefnu seminar Ewropeaidd ar addasu genetig yn Chwefror 2002 os gellid dod o hyd i ddyddiad cyfleus.

5.4 Holwyd y Gweinidog ynghylch y cyfnod ymgynghorol a oedd wedi ei nodi ar gyfer caniatâd Rhan B. Nododd y Pwyllgor nad cyfnod penodol ar gyfer ymgynghori a nodid yn y Gyfarwyddeb newydd ond ‘amser rhesymol’. Er y byddai angen cytuno â gweinyddiaethau eraill y DU ynghylch y cyfnod ymgynghorol, teimlai’r Gweinidog fod hyn yn caniatáu hyblygrwydd i’r Cynulliad bwyso am gyfnod hwy na’r un blaenorol.

5.5 Holwyd y Gweinidog a fu unrhyw gyfathrebu rhwng y Cynulliad a’r chwe gwlad o’r UE a oedd yn mabwysiadu moratoriwm ynghylch cymeradwyaeth newydd ar hyn o bryd. Nododd y Pwyllgor fod chwe Aelod-wladwriaeth yn rhwystro cymeradwyaeth newydd dan Ran C ar hyn o bryd. Ni allai’r Cynulliad wneud yr un modd ar ei ben ei hun gan nad oedd yn cael ei ystyried yn Aelod-wladwriaeth. Yr oedd Awstria, a rhai o’r Aelod-wladwriaethau eraill, ar wahân, wedi ceisio gwahardd tyfu cnydau wedi eu haddasu’n enetig drwy ddefnyddio hysbysiadau Erthygl 16 (Cyfarwyddeb 90/220/EEC). Barn Pwyllgor Gwyddonol ar Blanhigion yr UE oedd nad oedd yr hysbysiadau hyn wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth wyddonol newydd ac felly nad oeddent wedi eu cefnogi.

**Gweithredu:** Copi o’r erthygl yn *European Voice* i’w ddosbarthu i’r Aelodau – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Cefn Gwlad**

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 17-01(min)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd.

**Ysgrifenyddiaeth** **Rhagfyr 2001**